# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-18-06(p.10)

### Dyddiad: 13 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Diffygion Cronnol BILlau.

#### Diben

Gofynnodd y pwyllgor am bapur ar ddiffygion cronnol BILlau yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2006.

#### Crynodeb

Dyledion cronnol BILlau ar 31 Mawrth 2006 oedd £24.545m. Hyd yn hyn, cytunwyd ar ddiffyg arfaethedig o £3.4m gyda BILl Abertawe ar gyfer 06/07. Felly, cyfanswm y ddyled gronnol sy'n gysylltiedig â BILlau yw £27.945m.

#### Cefndir

Yng nghyd-destun y cwestiwn, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng "diffygion" a "dyledion".

Diffyg yw'r swm y mae gwariant sefydliad, yn achos Ymddiriedolaethau, neu'r adnoddau a ddefnyddir yn achos BILlau, yn fwy na'r incwm neu derfyn adnoddau sefydliad yn y drefn honno. Y diffyg cronnol yw cyfanswm yr holl ddiffygion, llai unrhyw wargedau sydd, o bosibl, wedi lleihau'r cyfanswm cyffredinol yn y cyfnod cyfamserol.

Y ddyled a ddelir gan sefydliad yw swm y cymorth a ddarparwyd drwy fenthyciadau neu adnoddau a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo sefydliadau â diffygion, er mwyn cynorthwyo'r sefydliad hwnnw i aros yn solfent a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r drefn ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau â dyledion gynhyrchu Cynlluniau Newid Gwasanaethau ac Effeithlonrwydd er mwyn ad-dalu'r ddyled drwy wargedau arfaethedig yn y dyfodol. Mae swyddogion y Llywodraeth yn craffu ar gynlluniau yn ofalus iawn er mwyn sicrhau na pheryglir y gwasanaethau a ddarperir i gleifion yn sgîl gweithredu'r cyfryw gynllun.

#### Dangosir cyfanswm y ddyled gronnol ar gyfer BILlau isod:

| Byrddau Iechyd Lleol | |
|---|---|

| | Cronnwyd | Benthyciadau y Cytunwyd Arnynt | Cyfanswm y Dyledion |
|---|---|---|---|
| | cyn 06/07 | 2006/07 | a Gronnwyd |
| | £m | £m | £m |
| Caerdydd | 11.576 | 0.000 | 11.576 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.772 | 0.000 | 0.772 |
| Ceredigion | 0.598 | 0.000 | 0.598 |
| Powys | 1.759 | 0.000 | 1.759 |
| Bro Morgannwg | 2.960 | 0.000 | 2.960 |
| Trefynwy | 1.400 | 0.000 | 1.400 |
| Casnewydd | 0.900 | 0.000 | 0.900 |
| Abertawe | 4.580 | 3.400 | 7.980 |
| Cyfanswm | 24.545 | 3.400 | 27.945 |

**Er budd cyflawnrwydd, dangosir y dyledion a gronnwyd mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau'r GIG isod:**

| | Cronnwyd | **Benthyciadau y Cytunwyd** Arnynt | **Cyfanswm** y Dyledion |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau | cyn 06/07 | 2006/07 | a Gronnwyd |
| | £m | £m | £m |
| Caerdydd a'r Fro | 19.855 | 0.000 | 19.855 |
| Sir Gaerfyrddin | 22.800 | 0.000 | 22.800 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 3.103 | 0.000 | 3.103 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 4.184 | 2.500 | 6.684 |
| Gofal Iechyd Gwent | 6.088 | 0.000 | 6.088 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 3.631 | 0.000 | 3.631 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gogledd Morgannwg | 0.875 | 0.000 | 0.875 |
| Sir Benfro a Derwen | 13.530 | 0.000 | 13.530 |
| Abertawe | 2.208 | 0.000 | 2.208 |
| Felindre | 0.172 | 0.000 | 0.172 |
| Cyfanswm | 76.446 | 2.500 | 78.946 |

Felly, cyfanswm y ddyled a gronnwyd gan y GIG yng Nghymru ar 1 Ebrill 2006 oedd £100.991m, gyda £5.9m arall o ddyled a gytunwyd gyda sefydliadau sy'n rhagweld diffyg hyd yn hyn yn ystod 2006/07.

Mae £16.647m o'r £100.991m yn ddyled hanesyddol, sy'n gysylltiedig â chyfrifon y cyn awdurdodau iechyd a ddelir yn llyfrau Ymddiriedolaethau'r GIG. Cytunodd y cyn Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddileu'r dyledion hyn pan fyddai'r cyrff wedi sicrhau cydbwysedd ariannol ddwy flynedd yn olynol. Ac eithrio'r ddyled hanesyddol, y ddyled adenilladwy net ar 31 Mawrth oedd £84.344m.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol